PENODI CADEIRYDDION I FWRDDAU GIG CYMRU

Pecyn Gwybodaeth Ymgeisydd

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

The Commissioner for Public Appointments

CYNNWYS TUDALEN

1.	Cyflwyniad	3
2.	Cyfrifoldebau allweddol	4-6
3.	Manyleb Person	7-8
4.	Ffeithiau allweddol am y swydd hon	9-15
5.	Cymhwysedd	16

Atodiad 1 – Ynghylch Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan 17
Atodiad 2 – Ynghylch Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro 18
Atodiad 3 – Ynghylch Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre 19

1. CYFLWYNIAD

Neges gan Jeremy Miles, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Senedd Cymru

Diolch ichi am ddangos diddordeb yn swydd Cadeirydd un o gyrff y GIG yng Nghymru.

Ar hyn o bryd, mae GIG Cymru yn cynnwys y sefydliadau a ganlyn:

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
- Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
- Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre
- Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
- Iechyd a Gofal Digidol Cymru
- Addysg a Gwella Iechyd Cymru

NODER: Ar gyfer y rownd recriwtio hon, rydym yn recriwtio i **Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre.**

Bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus rôl hanfodol o ran bwrw ymlaen â strategaeth a chynlluniau'r sefydliad. Rwy'n mawr werthfawrogi cyfraniad Cadeiryddion a phenodeion cyhoeddus i'n byrddau GIG, a byddaf yn disgwyl i'r ymgeisydd llwyddiannus arwain y Bwrdd i sicrhau bod blaenoriaethau'r sefydliad yn cael eu cyflawni.

Os oes gennych ddiddordeb yn y rôl hon ac yr hoffech wybod mwy am rôl bwysig Cadeirydd o fewn GIG Cymru, cysylltwch â Judith Paget, Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/Prif Weithredwr GIG Cymru a fydd yn fwy na pharod i drafod y rôl hon â chi ar fy rhan. Yn ogystal, gallwch gysylltu ag Ysgrifennydd y Bwrdd yn y sefydliadau priodol, a cheir y manylion yn yr Atodiad.

2. CYFRIFOLDEBAU ALLWEDDOL

Mae'r Bwrdd yn chwarae rhan allweddol wrth lunio strategaeth, gweledigaeth, pwrpas a diwylliant Bwrdd Iechyd. Mae'n dwyn y Bwrdd Iechyd i gyfrif am ddarparu gwasanaethau, perfformiad, cyflawni strategaeth a gwerth am arian, a datblygu a gweithredu strategol.

Mae hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod risgiau i'r Bwrdd Iechyd, staff a'r cyhoedd yn cael eu rheoli a'u lliniaru'n effeithiol. Dan arweiniad Cadeirydd annibynnol ac yn cynnwys cymysgedd o Aelodau Gweithredol ac Annibynnol, mae gan y Bwrdd gyfrifoldeb ar y cyd am berfformiad y Bwrdd Iechyd. Bydd y Cadeirydd yn atebol i'r Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol am berfformiad y Bwrdd a'i lywodraethu effeithiol, cynnal gwerthoedd y GIG, a hybu hyder y cyhoedd a phartneriaid.

Bydd y Cadeirydd yn:

Strategaeth

- Arwain datblygiad gweledigaeth strategol y Bwrdd ar gyfer y sefydliad, gan nodi a gwireddu'r potensial a'r sgiliau cynhenid o fewn y sefydliad i ddatblygu gwasanaeth arloesol sy'n arwain y byd.
- Darparu barn a chyngor annibynnol ar faterion ansawdd, strategaeth, gweledigaeth, perfformiad, adnoddau, a safonau ymddygiad.
- Herio, dylanwadu a chefnogi'r Cyfarwyddwyr Gweithredol yn adeiladol i ddatblygu cynigion ar strategaethau o'r fath.
- Cefnogi cyd-Aelodau Bwrdd i ddarparu arweinyddiaeth o fewn fframwaith o reolaethau doeth ac effeithiol i sicrhau cynaliadwyedd hirdymor y sefydliad.
- Sicrhau bod risgiau i gyflawni strategaeth y sefydliad yn cael eu mynegi a'u rheoli.

Cynllunio

- Bod yn atebol am berfformiad y Bwrdd ar lefelau cymunedol, rhanbarthol a chenedlaethol trwy gytuno a chyflawni cynllun tymor canolig integredig tair blynedd (neu gynllun cyflawni blynyddol) a chyflawniadau gwerthusiad blynyddol yn erbyn y cynllun; a
- Sicrhau bod y Bwrdd yn craffu'n effeithiol ar y cynllun tymor canolig integredig tair blynedd, gan sicrhau ei fod yn pennu amcanion clir i gyflawni'r strategaeth; Cwmpasu'r adnoddau ansawdd, gweithlu, gweithredol ac ariannol angenrheidiol i'r sefydliad gyflawni ei amcanion; ac adolygu perfformiad yn erbyn y cynllun yn rheolaidd.

Perfformiad

- Derbyn, adolygu a chymhwyso craffu priodol i ddata a gwybodaeth ansawdd, perfformiad, gweithlu ac ariannol i gymharu cyflawniadau yn erbyn targedau a, lle bo angen, cefnogi gweithredu camau adferol.
- Cytuno ar amcanion heriol i'r Prif Weithredwr a'r Gweithredwyr ar gyfer gwella perfformiad; cytuno ar amcanion ar gyfer yr Is-Gadeirydd ac Aelodau Annibynnol a chynnal gwerthusiadau blynyddol; a
- Sicrhau bod trefniadau rheoli effeithiol ar waith i sicrhau hyfywedd ariannol y sefydliad.

Llywodraethu

- Dwyn y Prif Weithredwr i gyfrif ar draws ystod ei gyfrifoldebau.
- Darparu arweinyddiaeth a chyfathrebu cryf, effeithiol a gweladwy ar draws holl gyfrifoldebau'r Bwrdd Iechyd, yn fewnol drwy'r Bwrdd Iechyd ac yn allanol drwy eu cysylltiadau ag ystod eang o randdeiliaid a phartneriaid o fewn a thu allan i'r GIG ar lefel genedlaethol, lefel gymunedol a lefel awdurdod lleol.
- Sicrhau y Ymrwymiad y Bwrdd i'r safonau llywodraethu uchaf, fel ei fod yn gweithredu er budd y boblogaeth a'r partneriaid y mae'n eu gwasanaethu ac yn cael ei weld yn atebol am y gwasanaethau a ddarperir a'r adnoddau a ddefnyddir.
- Sicrhau bod gwybodaeth gywir, amserol a chlir yn cael ei darparu i'r Bwrdd i gwrdd â gofynion statudol.
- Ceisio sicrwydd bod rheolaethau mewnol a systemau rheoli risg yn gadarn ac wedi'u llywodraethu'n dda.
- Dadansoddi a dehongli gwybodaeth a ddarperir i'r Bwrdd, gan geisio eglurhad, sicrwydd pellach, a thriongli gwybodaeth lle bynnag y bo modd; a
- Sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn cydymffurfio â'i Reolau Sefydlog, Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog, polisïau a gweithdrefnau, a deddfwriaeth a rheoliadau perthnasol.

Diwylliant ac Ymddygiad

- Dangos Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus (a elwir hefyd yn Egwyddorion Nolan) sef anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, bod yn agored, gonestrwydd ac arweinyddiaeth, a sicrhau bod holl aelodau'r Bwrdd yn cynnal yr egwyddorion.
- Cofleidio a hyrwyddo pwysigrwydd dwyieithrwydd a diwylliant Cymraeg ar holl weithgareddau'r sefydliad.
- Meithrin diwylliant sy'n annog staff, cleifion, teuluoedd, a'r cyhoedd i godi pryderon sydd wedyn yn cael sylw priodol.
- Cofleidio a hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth, a chynhwysiant ar gyfer poblogaeth, cleifion, staff a rhanddeiliaid y sefydliad, adlewyrchu a dysgu o'ch profiadau eich hun a phrofiadau pobl eraill.
- Sicrhau'r safonau uchaf o gywirdeb, uniondeb a llywodraethu, a bod trefniadau llywodraethu'r sefydliad yn cydymffurfio ag arfer gorau a gofynion statudol.

- Darparu arweinyddiaeth amlwg dosturiol wrth gefnogi a hyrwyddo diwylliant iach ar gyfer y sefydliad ac adlewyrchu hyn, a gwerthoedd y sefydliad, yn eu hymddygiad eu hunain; a
- Dod â phrofiad, gwybodaeth a dylanwad proffesiynol, cyfredol a gorffennol, i waith y Bwrdd, i hyrwyddo arloesedd, chwilfrydedd, ac i herio normau.

Ymrwymiad

- Meithrin a chynnal cysylltiadau agos rhwng GIG Cymru a grwpiau rhanddeiliaid i hyrwyddo gweithrediad effeithiol ein gweithgareddau.
- Darparu arweinyddiaeth i gefnogi ac annog gweithio effeithiol gyda phartneriaid, yn arbennig gyda Byrddau Iechyd, Ymddiriedolaethau GIG, Awdurdodau Iechyd Arbennig, awdurdodau lleol, y trydydd sector a phartneriaid gofal cymdeithasol, i sicrhau bod gwasanaethau diogel ac effeithiol yn cael eu cynllunio a'u darparu.
- Mynychu cyfarfodydd Llywodraeth Cymru, grwpiau cymheiriaid cyrff iechyd a rhanddeiliaid eraill, lle bo angen.
- Ymgymryd â rôl llysgennad allanol, gan roi sylw i'r cyhoedd a meithrin hyder y cyhoedd; a
- Disgwylir, gyda chymorth, i ddeall busnes y Bwrdd Iechyd trwy gyfranogiad gweithredol.

Gweithgareddau Bwrdd

- Cynllunio cyfarfodydd Bwrdd gyda'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol a dylunio rhaglen ddatblygu Bwrdd i gyflawni perfformiad uchel.
- Hwyluso cyfraniad effeithiol Aelodau'r Bwrdd a sicrhau cysylltiadau adeiladol o fewn y sefydliad a rhwng Cyfarwyddwyr Gweithredol ac Aelodau Annibynnol.
- Cadeirio cyfarfodydd Bwrdd ac arwain sesiynau datblygu a chyfarfodydd eraill o aelodau, fel y bo'n briodol.
- Cymryd rhan lawn yng ngwaith y Bwrdd a Phwyllgorau, gan gynnwys ymgysylltu cyn ac ar ôl cyfarfodydd a gwerthusiadau blynyddol i gefnogi llywodraethu da.
- Ar y cyd ag Aelodau eraill y Bwrdd a lle bo'n berthnasol, cyflawni eu dyletswyddau fel Cadeirydd Cronfa Elusennol y sefydliad, y mae'r Bwrdd yn gweithredu fel ymddiriedolwr corfforaethol iddi.
- Cynnal gwerthusiad perfformiad personol blynyddol, cymryd rhan mewn unrhyw hyfforddiant a datblygiad ychwanegol a amlygwyd o ganlyniad i'r broses werthuso i sicrhau bod amcanion personol yn cael eu cyflawni.

3. MANYLEB Y PERSON

Er mwyn cael eich ystyried, rhaid i chi allu dangos bod gennych y rhinweddau a'r profiad i fodloni'r holl feini prawf hanfodol ar gyfer y penodiad hwn. Mae'n haws dangos rhai o'r rhain ar y cam ymgeisio tra bod eraill yn cael eu harchwilio'n well yn y cyfweliad (gweler isod). Cymerir cyfle hefyd yn y cyfweliad i archwilio rhai o'r meini prawf a geir yn eich datganiad personol yn fanylach.

Adran A

Meini prawf hanfodol i'w dangos mewn datganiad personol.

Gwerthoedd

- Y gallu i ddangos ymrwymiad i ymgysylltu â phobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau, eu gofalwyr a'u teuluoedd, ein staff a rhanddeiliaid.

Sgiliau

- Hanes o arweinyddiaeth strategol ar lefel Bwrdd mewn sefydliad sector cyhoeddus, preifat neu drydydd sector.
- Y gallu i feithrin gweledigaeth ac arwain datblygiad strategaethau diffiniedig wrth geisio cyflawni nodau tymor hir, canolig a byr.
- Y gallu i ddeall a hwyluso dealltwriaeth o faterion cymhleth.
- Sgiliau rhyngbersonol a dylanwadol cryf a'r gallu i weithredu fel eiriolwr a llysgennad effeithiol.
- Y gallu i weithio ar y cyd ac fel rhan o dîm i gyflawni nodau cyffredin.
- Tystiolaeth o ddealltwriaeth o lywodraethu effeithiol.

Tystiolaeth o feini prawf dymunol mewn datganiad personol lle bo'n berthnasol.

Profiad

- Dealltwriaeth o reoli risgiau a systemau rheoli a sicrwydd mewnol.

Adran B

Meini prawf hanfodol i'w dangos yn y cyfweliad.

Gwerthoedd

- Ymrwymiad i gadw at Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus (Egwyddorion Nolan) a gwerthoedd y sefydliad.

Sgiliau

- Y gallu i ddarparu, ac annog eraill i ddarparu, herio a chraffu annibynnol tra'n cynnal perthnasoedd adeiladol.
- Y gallu i werthfawrogi dwyieithrwydd a diwylliant, ac ymrwymiad i hyrwyddo a phrif ffrydio'r Gymraeg.

- Dealltwriaeth o gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ac ymrwymiad iddynt, gan gynnwys y gallu i fyfyrio ar eich profiadau byw eich hun a dysgu oddi wrthynt.
- Yn graff ac yn gallu amgyffred materion perthnasol a deall y berthynas rhwng partïon â diddordeb gan ddangos barn gadarn, sensitifrwydd ac ymwybyddiaeth wleidyddol.
- Y gallu i ysgogi a datblygu'r Bwrdd, i ddiffinio rolau a chyfrifoldebau, gan sicrhau perchnogaeth ac atebolrwydd.

Tystiolaeth o feini prawf dymunol mewn cyfweliad lle bo'n berthnasol.

Profiad

- Profiad amlwg o arwain a rheoli newid strategol gan gynnwys newid diwylliant.

Mae sgiliau iaith Gymraeg yn ddymunol; fodd bynnag, disgwylir i bob ymgeisydd ddangos ymrwymiad i'r iaith a'r diwylliant a dangos arweiniad i gryfhau a hyrwyddo darpariaeth gwasanaeth dwyieithog o fewn y GIG yng Nghymru (gweler uchod sgiliau a phrofiad hanfodol).

Lle gall ymgeisydd ddangos ei fod yn bodloni'r meini prawf dymunol, dylai roi syniad o'i sgiliau yn erbyn y lefel sgil a ganlyn:

Deall	Yn gallu deall sgyrsiau arferol yn ymwneud â gwaith
Darllen	Yn gallu darllen rhai geiriau ac ymadroddion sylfaenol yn ddeallus
Siarad	Yn gallu sgwrsio mewn rhai sgyrsiau sy'n ymwneud â gwaith
Ysgrifennu	Yn gallu ysgrifennu rhai negeseuon sylfaenol ar bwnc bob dydd

4. FFEITHIAU ALLWEDDOL AM Y SWYDD

Lleoliad
Lleolir y swyddi yn Ne Cymru – swyddfeydd Caerllion, Caerdydd a Nantgarw gyda y gallu i weithio ystwyth / o bell. Presenoldeb yn bersonol mewn Cyfarfodydd Bwrdd neu Disgwylir Sesiynau Datblygu Bwrdd unwaith y mis lle bo modd.

Ymrwymiad Amser
Mae rolau Aneurin Bevan a Chaerdydd a'r Fro yn seiliedig ar ymrwymiad tybiannol o a 15 diwrnod y mis. Mae rôl Felindre yn seiliedig ar ymrwymiad amser tybiannol o 14.5 diwrnod y mis.

Daliadaeth Swydd
Bydd penodiadau cychwynnol am gyfnod o hyd at 4 blynedd, fodd bynnag, bydd hyn yn amodol ar gytundeb Ysgrifennydd y Cabinet

Tâl
Aneurin Bevan a Caerdydd a'r Fro - £69,840 y flwyddyn.
Felindre - £43,326 y flwyddyn.

Bydd gennych hawl hefyd i gael ad-daliad, os cyflwynir derbynebau, ar gyfer costau teithio a chynhaliaeth a fydd yn codi yn sgil busnes yr Bwrdd. Rhaid hawlio treuliau o fewn tri mis o fynd i gostau, oni bai bod amgylchiadau eithriadol. Gellir talu costau gofal plant ac unigolion dibynnol eraill hefyd, os cyflwynir derbynebau, yng nghyd-destun costau ychwanegol eraill a fydd yn codi wrth wneud gwaith i'r Bwrdd.

Gwneud cais

I wneud cais, ewch i dudalen swyddi gweigion Llywodraeth Cymru. https://cais.tal.net/vx/lang-en-GB/mobile-0/appcentre-4/brand-7/xf-509f77e961d6/candidate/jobboard/vacancy/6/adv/

I wneud cais am y rôl hon, cliciwch ar y swydd wag Cadeirydd GIG Cymru a chliciwch ar 'gwneud cais' yn y gornel chwith ar y gwaelod. Y tro cyntaf i chi wneud cais am swydd, bydd angen i chi gofrestru ar system ymgeisio ar-lein Llywodraeth Cymru. Dim ond unwaith y bydd angen i chi gofrestru, ac ar ôl hynny gallwch olrhain cynnydd eich cais presennol, ac unrhyw geisiadau yn y dyfodol trwy eich cyfrif cofrestredig ar-lein.

https://cais.tal.net/vx/lang-en-GB/mobile-0/appcentre-4/brand-7/xf-4ac5797242e0/candidate/register

Pan fyddwch wedi cwblhau cofrestru, byddwch yn gallu cyrchu'r ffurflen gais. I wneud cais, bydd angen i chi uwchlwytho datganiad personol a CV gyda'ch ffurflen gais ar-lein.

Mae'r tîm Penodiadau Cyhoeddus yn gweithredu recriwtio di-enw. Mae gwybodaeth bersonol allweddol, gan gynnwys enw a chyfeiriad ymgeisydd, yn cael ei chuddio rhag y panel recriwtio yn ystod y broses sifftio. Bydd rhywfaint o wybodaeth bersonol hefyd yn cael ei chuddio rhag y panel cyfweld os nad yw'n berthnasol i'r asesiad.

Datganiad Personol

Y datganiad personol yw eich cyfle i ddangos sut yr ydych yn bodloni pob un o'r meini prawf a nodir ym manyleb y person **(Adran A). Noder:** fel y crybwyllwyd uchod, nid oes angen i chi gynnwys eich holl sgiliau a phrofiad yn y datganiad personol. Rhoddir cyfle hefyd i ddangos y sgiliau a'r profiad yn Adran B mewn cyfweliad.

Dylai'r datganiad gynnwys enghreifftiau sy'n dangos sut mae eich gwybodaeth a'ch profiad yn cyfateb i bob un o'r meini prawf. Dylai'r enghreifftiau hyn ddisgrifio beth oedd eich rôl, y dull a ddefnyddiwyd gennych i gyflawni canlyniad penodol a sut y byddech yn defnyddio'r profiad hwn yn y rôl yr ydych yn ymgeisio amdani; mae croeso i chi ddefnyddio enghreifftiau o brofiadau proffesiynol a phrofiadol.

Cyfyngwch eich datganiad personol i **1000 o eiriau.**

Curriculum Vitae (CV)

Sicrhewch fod eich CV yn cynnwys manylion cryno am eich swyddi presennol neu fwyaf diweddar a'r dyddiadau pan wnaethoch chi gyflawni'r rolau hyn. Nodwch unrhyw benodiadau Gweinidogol yn y gorffennol neu'r presennol. **Ni ddylai eich CV fod yn hwy na thair tudalen o hyd.**

Geirdaon

Darparwch ddau ganolwr y byddwn yn cysylltu â nhw ar gyfer ymgeiswyr llwyddiannus yn unig.

Er mwyn cynnal y safonau uchaf o onestrwydd a phriodoldeb, ni allwn dderbyn Aelodau'r Senedd na chyflogeion Llywodraeth Cymru fel canolwyr ar gyfer ceisiadau am aelodaeth o gyrff cyhoeddus.

Proses Ddethol

Bydd Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cael cymorth i wneud penderfyniadau gan Banel Asesu Cynghorol. Bydd y panel hwn yn cynnwys Judith Paget, Cyfarwyddwr Cyffredinol Grŵp Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar/ Prif Weithredwr GIG Cymru; Uwch Aelod Annibynnol o'r Panel; a dau aelod o'r Grŵp Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar, Llywodraeth Cymru.

Dim ond yr ymgeiswyr y mae'n teimlo eu bod wedi dangos eu bod yn bodloni'r meini prawf a nodir yn y fanyleb person orau y bydd y panel yn eu dewis ar gyfer cyfweliad. Byddant yn dibynnu ar y wybodaeth a roddwch yn eich CV a datganiad personol yn unig i asesu a oes gennych y sgiliau a'r profiad angenrheidiol. Fodd bynnag, os ydych wedi gwneud cais o dan y cynllun gwarantu cyfweliad (gweler isod) a'ch bod yn bodloni'r meini prawf hanfodol gofynnol ar gyfer y swydd, byddwch hefyd yn cael eich gwahodd am gyfweliad.

Fe gewch e-bost oddi wrth ganolfan ymgeisio Llywodraeth Cymru i roi gwybod ichi a fyddwch wedi cael eich gwahodd i gyfweliad ai peidio. Os cewch eich gwahodd i gyfweliad, bydd y panel yn eich holi am eich sgiliau a'ch profiad, gan ofyn cwestiynau penodol i asesu a ydych yn bodloni meini prawf y swydd.

Os cewch eich gwahodd i gyfweliad, bydd y panel yn eich holi am eich sgiliau a'ch profiad, gan ofyn cwestiynau penodol i asesu a ydych yn **bodloni meini prawf** y swydd.

Bydd yr ymgeiswyr y bydd y panel yn credu sy'n addas i'w penodi yn cael eu hargymell i Ysgrifennydd y Cabinet, a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Gall Ysgrifennydd y Cabinet ddewis cwrdd â'r ymgeiswyr hyn cyn gwneud penderfyniad. Os felly, bydd yn cwrdd â'r holl ymgeiswyr ym mhresenoldeb cadeirydd y panel neu ei gynrychiolydd enwebedig. Bydd bwlch amser rhwng y cyfweliad a'r penderfyniad penodi terfynol. Bydd yr ymgeiswyr a fydd wedi'u cyf-weld yn cael gwybod hynt y broses honno.

Gwrandawiad cyn penodi

Bydd ymgeisydd a ffefrir Ysgrifennydd y Cabinet yn destun craffu cyn penodi ac efallai y gofynnir iddo fynychu gwrandawiad Pwyllgor Senedd Cymru.

Mae craffu cyn penodi gan bwyllgorau'r Senedd yn rhan bwysig o'r broses ar gyfer rhai o'r penodiadau cyhoeddus mwyaf arwyddocaol a wneir gan Ysgrifenyddion y Cabinet/Gweinidogion. Fe'i cynlluniwyd i ddarparu lefel ychwanegol o graffu ar y broses gyffredinol a gwirio bod y recriwtio yn bodloni'r egwyddorion a nodir yn y Cod Llywodraethu ar Benodiadau Cyhoeddus. Gallai'r craffu hwn olygu bod y pwyllgor perthnasol yn gofyn am wybodaeth gan Lywodraeth Cymru a'r ymgeisydd a ffefrir gan Ysgrifennydd y Cabinet ac yn adolygu'r wybodaeth honno. Gall y pwyllgor hefyd ddewis cynnal gwrandawiad cyn penodi.

Cynhelir gwrandawiadau cyn penodi yn gyhoeddus ac mae pwyllgor y Senedd yn cymryd tystiolaeth gan yr ymgeisydd a ffefrir gan Ysgrifennydd y Cabinet/Gweinidog. Cynhelir y gwrandawiadau cyhoeddus hyn cyn i apwyntiad gael ei gadarnhau, ond ar ôl i'r broses ddethol gael ei chwblhau.

Pan fo penodiad cyhoeddus yn destun craffu cyn penodi, mater i'r pwyllgor perthnasol yw cynnal y cyfryw graffu, gan gynnwys a ddylid cynnal gwrandawiad cyn penodi. Yn dilyn adolygiad o wybodaeth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru am y broses recriwtio, caiff y pwyllgor benderfynu nad oes angen gwrandawiad craffu cyn penodi cyn iddo gyhoeddi ei adroddiad, os yw'n cytuno â dewis ymgeisydd Ysgrifennydd y Cabinet.

Amserlen

Hysbyseb Dyddiad cau	**18 Ebrill 2025**
Sift	**14 Mai 2025**
Sesiwn rhanddeiliaid	**2 Mehefin 2025**
Cyfweliadau	**3 a 5 Mehefin 2025**
Gwrandawiad cyn apwyntiadau	**Gorffennaf 2025**
Apwyntiadau wedi'u cadarnhau	**Gorffennaf 2025**
Apwyntiadau yn dechrau	**Gorffennaf 2025**

Datganiad Amrywiaeth

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod gwerth cael cyrff cyhoeddus sy'n adlewyrchu amrywiaeth eang o ddiwylliannau, hunaniaethau a chefndiroedd. Rydym yn annog ceisiadau o bob rhan o gymdeithas ac rydym am benodi o'r gronfa dalent ehangaf a mwyaf amrywiol.

Rydym yn croesawu ceisiadau gan bawb heb ystyried oedran, statws priodasol (gan gynnwys priodas rhwng pobl o'r un rhyw) a phartneriaeth sifil, cyfeiriadedd rhywiol, rhyw, hunaniaeth rhywedd, amhariad neu gyflwr iechyd, hil, crefydd neu gred, na beichiogrwydd.

Rydym wedi ymrwymo i recriwtio menywod, pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, pobl anabl ac aelodau o'r gymuned LHDTC+, sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn swyddi ar Fyrddau cyrff cyhoeddus ar hyn o bryd.

Hyderus o ran Anabledd

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y diffiniad cymdeithasol o anabledd, lle cydnabyddir bod rhwystrau mewn cymdeithas yn gweithredu i analluogi pobl sydd â namau neu gyflyrau iechyd, neu sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain (BSL).

Rydym wedi ymrwymo i gael gwared ar rwystrau fel y gall yr holl staff berfformio ar eu gorau. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn defnyddio'r diffiniad meddygol o anabledd "nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith sylweddol a hirdymor ar allu person i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd".

Rydym yn gwarantu cyfweld unrhyw un sy'n anabl, y mae eu cais yn bodloni'r meini prawf gofynnol ar gyfer y swydd. Wrth 'feini prawf gofynnol' rydym yn golygu bod yn rhaid i chi ddarparu tystiolaeth i ni yn eich cais sy'n dangos eich bod yn gyffredinol yn bodloni'r lefel cymhwysedd ar gyfer y rôl ac unrhyw gymwysterau, sgiliau neu brofiad a ddiffinnir fel 'hanfodol'.

Os hoffech gael cyfweliad gwarantedig, cysylltwch â'r Uned Penodiadau Cyhoeddus yn PenodiadauCyhoeddus@llyw.cymru i roi gwybod iddynt.

Os oes gennych nam neu gyflwr iechyd neu os ydych yn defnyddio BSL ac angen trafod addasiadau rhesymol ar gyfer unrhyw ran o'r broses recriwtio hon, cysylltwch â'r Uned Penodiadau Cyhoeddus fel uchod cyn gynted â phosibl i drafod eich gofynion ac unrhyw gwestiynau sydd gennych.

Safonau mewn bywyd cyhoeddus

Bydd disgwyl i chi ddangos safonau uchel o ymddygiad corfforaethol a phersonol. Gofynnir i bob ymgeisydd llwyddiannus danysgrifio i'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Byrddau Cyrff Cyhoeddus a'r Codau Ymddygiad ac Atebolrwydd ar gyfer Byrddau'r GIG a Chyfarwyddiadau Cod Ymddygiad ar gyfer Rheolwyr y GIG 2006.

Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Bwrdd Cyrff Cyhoeddus (gov.uk)

Datblygiad Personol ac Adolygu Perfformiad

Mae Llywodraeth Cymru yn gwerthfawrogi'r cyfraniad a wneir gan y rhai a benodir yn gyhoeddus ac mae'n dymuno sicrhau, ar y cyd ag sefydliad, bod deiliaid swyddi yn gallu manteisio ar ystod o gyfleoedd datblygu personol. Ar ôl penodi, bydd y Cadeirydd/Ysgrifennydd y Cabinet yn cytuno ar gynllun datblygu personol ac amcanion. Bydd hefyd yn ofynnol i ymgeiswyr llwyddiannus fynychu rhaglen sefydlu. Mae Academi Cymru yn darparu ystod o raglenni datblygu rheolaeth ar draws gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru i gyrchu'r rhain a bydd rhaglenni eraill ac archwilir i raglenni eraill ar benodiad.

Gwrthdaro Buddiannau

Wrth wneud cais, gofynnir i chi ddatgan unrhyw fuddiannau a all, neu y gellir eu gweld, yn gwrthdaro â rôl a chyfrifoldebau gan gynnwys unrhyw fuddiannau busnes a swyddi o awdurdod y tu allan i'r sefydliad yr ydych yn gwneud cais iddo.

Bydd unrhyw wrthdaro buddiannau yn cael ei archwilio yn y cyfweliad. Os cewch eich penodi, bydd gofyn i chi hefyd ddatgan y buddiannau hyn ar gofrestr sydd ar gael i'r cyhoedd.

Diwydrwydd Dyladwy

Bydd Tîm Penodiadau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru yn cynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy ar bob ymgeisydd sy'n cael ei ddidoli'n llwyddiannus i gyfweliad. Bydd hyn yn cynnwys ond nid o reidrwydd yn gyfyngedig i chwiliadau cyfryngau cymdeithasol a Rhyngrwyd. O ganlyniad, gellir archwilio unrhyw ganfyddiadau diwydrwydd dyladwy ymhellach yn y cyfweliad.

Gwneud apwyntiad

Os byddwch yn llwyddiannus, byddwch yn derbyn llythyr gan y Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn eich penodi'n i'r swydd a fydd yn cadarnhau'r telerau ar gyfer cynnig y penodiad. Bydd eich penodiad yn amodol ar wiriad geirda a gynhelir gan Dîm Penodiadau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru ac ar wiriad DBS a gynhelir gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Mae'n orfodol mynd i Raglen Sefydlu Aelod Annibynnol GIG Cymru ar benodiad a bydd yn rhaid i chi fynd i'r cwrs nesaf sydd ar gael.

Cysylltiadau

I gael rhagor o wybodaeth â:

Judith Paget, Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/Prif Weithredwr GIG Cymru, Llywodraeth Cymru; e-bost: pstodgforhsscenhswales@gov.wales

I gael rhagor o wybodaeth am Benodiadau Cyhoeddus yng Nghymru, ewch i www.llyw.cymru/penodiadau-cyhoeddus

Os bydd angen rhagor o gymorth arnoch i wneud cais am y rôl hon, cysylltwch â penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru

Ymholiadau

Ar gyfer ymholiadau am eich cais, cysylltwch â penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru

Os nad ydych yn gwbl fodlon

Bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio prosesu pob cais cyn gynted â phosibl a thrin pob ymgeisydd yn deg, a chwrteisi. Os oes gennych unrhyw gwynion am y ffordd yr ymdriniwyd â'ch cais, cysylltwch â penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru .

Yn ogystal, gallwch ysgrifennu at:
Swyddfa'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus
Llawr gwaelod,
1 Horse Guards Road,
Llundain,
SW1A 2HQ.

neu drwy e-bost yn publicappointments@csc.gov.uk

5. CYMHWYSEDD

Bydd person yn cael ei anghymhwyso rhag cael ei benodi os yw:

a. wedi cael ei gollfarnu yn y DU, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw o unrhyw drosedd o fewn y pum (5) mlynedd blaenorol ac wedi rhoi dedfryd o garchariddo (boed wedi'i gohirio ai peidio) am gyfnod o ddim llai na thri (3) mis.
b. wedi cael ei ddyfarnu'n fethdalwr neu wedi gwneud compownd neu drefniant gyda'u credydwyr.
c. wedi ei ddiswyddo, ac eithrio oherwydd dileu swydd, neu ddiffyg adnewyddu contract cyfnod penodol, o unrhyw gyflogaeth am dâl gyda chorff gwasanaeth iechyd, ac;
d. sy'n berson y mae ei gyfnod yn ei swydd fel cadeirydd, aelod neu gyfarwyddwr corff gwasanaeth iechyd wedi'i derfynu oherwydd nad yw ei benodiad er budd y gwasanaeth iechyd, am beidio â bod yn bresennol mewn cyfarfodydd neu am beidio â datgelu buddiant ariannol.
e. wedi bod yn ystod y flwyddyn flaenorol yng nghyflogaeth Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru neu Bwrdd Iechyd addysgu Powys.

Nid yw cyflogaeth gyda chyrff GIG eraill yng Nghymru, ar hyn o bryd, yn golygu bod person wedi'i anghymhwyso rhag cael ei benodi yn unol â'r Rheoliadau perthnasol yn ymarferol. Polisi Llywodraeth Cymru yw bod person yn cael ei wahardd rhag cael ei benodi os yw o fewn y flwyddyn flaenorol wedi bod mewn cyflogaeth â thâl Bwrdd Iechyd yng Nghymru, Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru, Addysg a Gwella Iechyd Cymru neu Iechyd a Gofal Digidol Cymru.

Ni fydd unigolyn ychwaith fel arfer yn gwasanaethu ar yr un pryd fel Aelod nad yw'n Swyddog (Cadeirydd, Is-Gadeirydd neu Aelod Annibynnol) ar Fwrdd mwy nag un corff GIG yng Nghymru.

Dylai ymgeiswyr nodi hefyd bod aelodaeth o Fwrdd Iechyd yn swydd sy'n anghymhwyso rhag bod yn aelod o Senedd Cymru o dan Orchymyn Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2020.

ATODIAN 1
YNGHYLCH BWRDD IECHYD PRIFYSGOL ANEURIN BEVAN

Sefydlwyd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ym mis Hydref 2009 ac fe gafodd statws Prifysgol ym mis Rhagfyr 2013. Prif rôl y Bwrdd Iechyd yw sicrhau bod y system GIG leol yn cael ei chynllunio a'i chyflenwi'n effeithiol, o fewn fframwaith llywodraethiant cadarn, i gyflawni'r safonau uchaf o ran diogelwch cleifion a darparu gwasanaethau cyhoeddus, gwella iechyd a lleihau anghydraddoldebau a sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i'n dinasyddion mewn modd sy'n hyrwyddo hawliau dynol. Er mwyn cyflawni'r rôl hon, mae'n ofynnol i ni weithio gyda'n partneriaid a'n rhanddeiliaid er budd gorau'r boblogaeth yr ydym yn ei gwasanaethu. Fel Bwrdd Iechyd, rydym yn gwasanaethu poblogaeth Gwent sy'n adlewyrchu pum ardal awdurdod lleol: Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen. Mae demograffeg Gwent yn amrywiol ac yn cynnwys ardaloedd gwledig, canolfannau trefol a chymoedd mwyaf dwyreiniol y De.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cyflogi 12,276 o staff cyfwerth ag amser cyflawn, sy'n gyfystyr â 13,306 o staff, a dyma'r cyflogwr mwyaf yng Ngwent. Mae ein gweithlu'n heneiddio, ac felly hefyd broffil demograffig ein poblogaeth, ac mae anghydraddoldebau iechyd ein poblogaeth i'w gweld hefyd o fewn ein gweithlu. Mae 80 y cant o'n staff yn byw yn ein cymunedau. Felly, mae'n hanfodol bod iechyd a lles staff yn flaenoriaeth allweddol ac yn nodwedd o'n cynlluniau ataliol. Ynglŷn â Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan Diolch ichi am fynegi diddordeb yn rôl Aelod Annibynnol (Trydydd Sector) Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Mae'r ddogfen hon yn rhoi gwybodaeth i ymgeiswyr am y Bwrdd yn ogystal â manylion am rolau a chyfrifoldebau'r Cadeirydd a'r broses ddethol.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cael cyllideb o ychydig dan £1.6 biliwn y flwyddyn gan Lywodraeth Cymru, i'w defnyddio i gynllunio a darparu gwasanaethau ar gyfer poblogaeth Gwent. Yn ogystal â darparu gwasanaethau'n lleol, mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio mewn partneriaeth i geisio gwella iechyd a lles yn yr ardal, yn arbennig drwy ein trefniadau partneriaeth i ymateb i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Agorodd Ysbyty Athrofaol y Faenor yng Nghwmbrân ym mis Tachwedd 2020 ac mae'n darparu gofal critigol ac arbenigol i drigolion Gwent a De Powys. Mae tri uwch Ysbyty Cyffredinol Lleol yn parhau i ddarparu ystod o wasanaethau cleifion mewnol a chleifion allanol; sef Ysbyty Brenhinol Gwent yng Nghasnewydd; Ysbyty Ystrad Fawr yn Ystrad Mynach ac Ysbyty Nevill Hall yn y Fenni. Ceir hefyd ysbytai a chyfleusterau amrywiol eraill sydd wedi'u lleoli ar draws ardal y Bwrdd Iechyd. I gael rhagor o wybodaeth am Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, ewch i wefan y Bwrdd Iechyd.

I gael rhagor o wybodaeth am y rôl, cysylltwch â Rani Dash, Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol: rani.dash@wales.nhs.uk

I gael rhagor o wybodaeth am Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurib Bavan, ewch i wefan y Bwrdd Iechyd.

ATODIAD 2 –
YNGHYLCH BWRDD IECHYD PRIFYSGOL CAERDYDD A'R FRO

Mae Caerdydd a'r Fro yn un o'r Byrddau Iechyd integredig mwyaf yn y DU. Wrth wasanaethu poblogaeth o dros 500,000 ar draws Dinas Caerdydd a Bro Morgannwg mae'n cyflogi mwy na 18,000 o staff ac mae ganddo gyllideb o fwy na £2bn.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn gyfrifol am ystod lawn o wasanaethau iechyd a lles gan gynnwys gwasanaethau sylfaenol a chymunedol; gwasanaethau aciwt drwy'r 2 brif ysbyty athroafol a'r ysbyty plant; iechyd y cyhoedd; ystod o wasanaethau eraill ar draws mwy na dwsin o safleoedd; ac, fel canolfan drydyddol, triniaeth arbenigol a gwasanaethau cymhleth nad ydynt ar gael mewn rhannau eraill o Gymru megis niwrolawdriniaeth a gwasanaethau cardiaidd.

Mae'r strategaeth ar ei newydd wedd, Llunio ein Llesiant i'r Dyfodol 2023-2033, yn nodi'r uchelgais i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd o fewn ein cymunedau a rhyngddynt, galluogi pobl i gadw'n iach a darparu gwasanaeth rhagorol i'r bobl iawn, yn y lle iawn, ar yr amser iawn er mwyn sicrhau'r canlyniadau a'r profiad gorau. Mae'r strategaeth hon wedi'i hadeiladu ar sylfaen gwerthoedd craidd y sefydliad: caredig a gofalgar, parchus, ymddiriedaeth ac uniondeb a chyfrifoldeb personol.

Mae ffocws cryf ar bartneriaeth ac mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i gydgynhyrchu gwasanaethau iechyd a lles ac mae'n mwynhau cydberthnasau gwaith rhagorol gyda'i randdeiliaid a sefydliadau partner gan gynnwys y 2 awdurdod lleol, prifysgolion, sefydliadau a busnesau elusennol a thrydydd sector. Mae'r ddau Fwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi mynd o nerth i nerth yn ddiweddar ac rydym hefyd wedi gweld mwy o waith cydweithredol ar draws De Cymru, gyda'n Byrddau Iechyd cyfagos, ar ddarparu gwasanaeth rhanbarthol, megis datblygiad y Rhwydwaith Trawma Mawr ar gyfer cymunedau De a Gorllewin Cymru.

Mae uchelgais cryf a ffocws ar y dyfodol hefyd. Mae'r Strategaeth Gwyddor Iechyd Academaidd ar y Cyd yn ceisio adeiladu ar yr arbenigedd Genomeg blaenllaw sydd gennym yn y sefydliad a chryfder y berthynas â Phrifysgol Caerdydd i ddatblygu casgliad sylweddol o brosiectau ymchwil, treialon clinigol a therapïau uwch i wneud y gorau i gleifion a'r boblogaeth ehangach. At hynny, mae'n ymwneud â chadarnhau safle Caerdydd fel dinas sy'n weithgar ac yn alluog sy'n denu mwy o fuddsoddiad, treialon ac arloesedd.

I gael rhagor o wybodaeth am y rôl, cysylltwch â Matt Phillips, Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol: matt.phillips2@wales.nhs.uk

I gael rhagor o wybodaeth am Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, ewch i wefan y Bwrdd Iechyd.

ATODIAD 3 –
YNGHYLCH YDDIRIEDOLAETH GIG PRIFYSGOL FELINDRE

Sefydlwyd Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre ym 1994 ac mae'n un o 12 sefydliad iechyd statudol yng Nghymru. Rydym yn gyfrifol am ddarparu nifer o wasanaethau iechyd ledled Cymru.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn rheoli Gwasanaeth Canser Felindre a Gwasanaeth Gwaed Cymru ac yn cynnal Technoleg Iechyd Cymru a Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru.

Mae Gwasanaeth Canser Felindre yn darparu ystod eang o wasanaethau canser arbenigol ar gyfer poblogaeth cleifion de ddwyrain Cymru. Mae'r Gwasanaeth yn gweithredu o Ganolfan Ganser Felindre yng Nghaerdydd a chanolfannau allgymorth ar draws y rhanbarth gan ddarparu triniaeth, addysgu, ymchwil a datblygiad arbenigol ar gyfer oncoleg anlawfeddygol mewn partneriaeth â'n partneriaid. Rydym yn trin cleifion â chemotherapi, Triniaethau Gwrth-Ganser Systemig (SACTs), radiotherapi a thriniaethau cysylltiedig, ynghyd â gofalu am gleifion ag anghenion gofal lliniarol arbenigol. Mae Canolfan Ganser Felindre newydd yn cael ei hadeiladu yn yr Eglwys Newydd, Caerdydd sydd i fod i agor yng ngwanwyn 2027, ac rydym yn gweithio gyda Bwrdd GIG Prifysgol Aneurin Bevan ar Uned Lloeren Radiotherapi Felindre @Nevill Hall yn Y Fenni fydd yn agor yn ddiweddarach eleni.

Mae Gwasanaeth Gwaed Cymru yn wasanaeth cenedlaethol sy'n sicrhau bod rhodd rhoddwyr gwaed yn cael ei drawsnewid yn gydrannau gwaed diogel ac effeithiol. Rydym yn gweithio gyda'r holl bartneriaid ar draws GIG Cymru i wella ansawdd bywyd ac achub bywydau miloedd lawer o bobl yng Nghymru bob blwyddyn. Rydym hefyd yn darparu gwasanaeth sgrinio cyn-geni i sawl ysbyty ac yn cynnig gwasanaethau labordy arbenigol i bob ysbyty cwsmer. Mae Labordy Trawsblannu ac Imiwnogeneteg Cymru yng Ngwasanaeth Gwaed Cymru, yn darparu cymorth uniongyrchol i ddarparwyr lleol Gwasanaethau Trawsblaniadau Arennol a Bôn-gelloedd ac rydym yn gweithredu panel cenedlaethol o roddwyr gwaed a bôn-gelloedd posibl nad ydynt yn gysylltiedig – Cofrestrfa Rhoddwyr Mêr Esgyrn Cymru.

Mae Technoleg Iechyd Cymru yn cydweithio â phartneriaid ar draws y sectorau iechyd a thechnoleg i wella ansawdd gofal. Mae'n cynhyrchu canllawiau cenedlaethol ar ddefnyddio technolegau iechyd nad ydynt yn feddyginiaethau.

Mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn darparu ystod eang o wasanaethau cymorth proffesiynol, technegol a gweinyddol i GIG Cymru, gan gynnwys caffael, recriwtio a gwasanaethau cyfreithiol.

I gael rhagor o wybodaeth am y rôl, cysylltwch â Non Gwilym, Cyfarwyddwr Llywodraethu Dros Dro, non.gwilym@wales.nhs.uk

I gael rhagor o wybodaeth am Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre, ewch i wefan Bwrdd yr Ymddiriedolaeth.